# ABATY BASING A FFYNNON GWENFREWI

**Mae dau le difyr o arwyddocâd crefyddol y gellir ymweld â hwy tra'n crwydro yn ardal Treffynnon, Sir Y Fflint.**

Mae yna waith rhyw ddwy awr a hanner o gerdded hamddenol ond gan ddibynnu am ba hyd y byddwch yn oedi yn Abaty Basing ac wrth Ffynnon Gwenfrewi - neu Gwenffrewi yn ôl sillafiad arall - gall y daith gymryd faint a fynnwch chi o amser ychwanegol.

Y lle gorau i gychwyn yw o faes parcio Maesglas.




## Abaty Basing



Llun: John Armagh

Mae olion Abaty Basing i'w gweld yn syth wedi ichi ymuno â'r llwybr sy'n cychwyn o'r maes parcio. Mae'n rhan o barc treftadaeth gyda saith o henebion cofrestredig ynddo.

Y gred yw mai Iarll Caer a sefydlodd yr Abaty nôl yn 1131 ac yn bensaernïol mae'n debyg iawn i abaty Glyn y Groes ger Llangollen.

Brodyr Sistersaidd oedd yma - nes iddyn nhw gael eu hel oddi yno yn sgil Deddf Diddymiad 1536 Harri'r Wythfed.

**Ochri gyda'r Saeson**

Yn ystod brwydrau y drydedd ganrif ar ddeg ochri gyda'r Saeson a wnaeth y mynachod.  Yn faterol, yr oedd hynny'n benderfyniad doeth gan i'r abaty ffynnu'n sylweddol o ran arian a thir. Oddi yma y daeth caplan Castell Y Fflint.

## Un o'r Saith Rhyfeddod

O ddilyn y llwybr i fyny'r dyffryn gellir mynd naill ai yr holl ffordd i Dreffynnon a hamddena yn y dref cyn troi am ffynnon Gwenfrewi, sy'n un o 'Saith Rhyfeddod Cymru' - neu gellir mynd yn syth i'r ffynnon gan gyrraedd o fewn rhyw hanner awr.

### Treisio Gwenfrewi

Mae'r ffynnon yn grandiach lle na'r Abaty erbyn heddiw, gyda'r adeiladau a godwyd o'i chwmpas yn cael eu cynnal. Ychydig sydd i'w weld o'r ffordd fawr a rhaid talu i fynd at y ffynnon ei hun.

### Coelion yn hytrach na ffeithiau

Er bod Gwenfrewi yn un o seintiau enwocaf Cymru y mae'r hanesion amdani wedi eu seilio ar goelion yn hytrach na hanes go iawn. Hyd y gellir casglu, hi oedd unig blentyn teulu cyfoethog yn y seithfed ganrif a oedd, yn ôl rhai, yn rhan o deulu brenhinol Powys. Ei thad oedd Tevyth o Degeingl a Gwenlo, merch Insi, Brenin Powys oedd ei mam.



*Llun: Tom Oates*

### Disgybl Beuno

Dywedir bod Gwenfrewi yn ddisgybl i Sant Beuno, a'r hanes mwyaf cyffredin amdani yw iddi gael ei threisio a'i lladd gan y Tywysog Caradog o Benarlâg. Ceisiodd ddianc rhagddo ond daliodd Caradog hi a thorri ei phen. Melltithiwyd Caradog gan Beuno gan beri iddo ddiflannu i'r awyr. Yna, gan weddïo, gosododd Beuno ben Gwenfrewi yn ôl ar ei hysgwyddau ac adfer ei bywyd.

Yr hanes yw i ffynnon darddu o'r fan lle syrthiodd ei phen ac wedi i Beuno adfer iddi ei bywyd eisteddodd y ddau ger y ffynnon yn gweddïo, gyda Beuno yn addo y byddai unrhyw un a weddïai wrth y ffynnon yn cael gwellhad.

### Pererinion

Dyna pam mae'r ffynnon wedi bod yn gyrchfan pererinion ers hynny - ac maen nhw'n dal i ddod yno am yr un rheswm, hyd yn oed heddiw.